Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

DERBYNNYDD

GRADD 4 - Cyflog: £23,500 - £23,893 (pro rata)

Rhan Amser – Dydd Llyn a Dydd Mawrth – 14.48 awr/wythnos

Post Rhif: NU417

Cododd y swydd wag Parhaol uchod o fewn Adran Cymorth Busnes ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a leolwyd ym Mharc Busnes Forest View, Llantrisant.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau derbynfa, switsfwrdd a phost effeithiol wedi'i ganolbwyntio ar y cwsmer yn ogystal â darparu cymorth gweinyddol o fewn Tîm Gweinyddol yr Adran Cymorth Busnes .

Mae'n **hanfodol** bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu gweithio'n gyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac er mwyn gallu cyflawni hyn dylai fod â chymhwyster TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu SYLFAEN (CBAC), neu'n gallu arddangos lefel sgil cyfatebol yn yr Iaith Gymraeg.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/ Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00yp** ar y **4ydd o Ebrill 2024.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol a dymunwn annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG